

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 25th September 2017** at 6.30pm

PRESENT: - His Worship the Mayor, Councillor Derek Hainge
The Deputy Mayor, Councillor J Wynn Jones
Councillors :- Mrs L Day (Chairman)

Dylan Fernley	N Pickavance	Gareth Roberts
Medwyn Hughes	Keith Jones	G O Roberts
Owen Hurcum	J M Martin	Mair Rowlands
Ifan James	Enid Parry	Luke Tugwell

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

91/17 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors Colin King, Conor Savage, Elin Walker Jones, J Wyn Williams and H Wynn Jones.

92/17 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None.

93/17 NORTH WALES POLICE

Inspector Owain Llewellyn of North Wales Police gave an oral presentation to the Committee on the latest crime developments and pertinent issues affecting Bangor. Members asked appropriate questions and raised current and recent issues. Inspector Llewellyn responded appropriately and outlined the position in terms of resources available.

The Chairman and Members thanked the Inspector for his report.

94/17 URGENT BUSINESS

The Town Clerk reported that he had written to all the contacts for possible Youth Representatives on the Council with no response as yet. He also stated that he had written to Orsay City Council in France regarding their invitation to become Twinning Partners – again no response.

95/17 ANNUAL RETURN COMPLETION OF AUDIT 2016/2017

The Town Clerk reported that the External Auditor BDO from Southampton had given the Council a clean bill of health and that the Audit process was now complete. Apart from one minor administrative issue there were no issues raised.

RESOLVED: That the Notice of Completion of the Annual Audit 2016/2017 be received and noted and the staff be congratulated on this excellent result.

96/17 APPOINTMENT OF INTERNAL AUDITOR

The Town Clerk informed the Committee that Mr John Roberts who had acted as the City Council's Internal Auditor for many years had retired. The Council would therefore need to seek a replacement appointment.

RESOLVED that the Town Clerk investigate a possible replacement and report back to the Committee at the next meeting.

97/17 PROPOSED CHANGES IN THE REMUNERATION OF MEMBERS OF COMMUNITY AND TOWN COUNCILS

The Committee had received a copy of the Annual Report of the Independent Remuneration Panel for Wales. The Report highlighted the need for Town and Community Councils to consider remuneration payment for Members in various categories. Due to the detailed nature of this item it was considered that further debate would be necessary.

RESOLVED that a Sub-Committee of at least 5 interested members consider the matter in more detail and report back to the Committee in due course.

98/17 WELSH LANGUAGE

The Town Clerk reported that several Members would like Welsh email addresses and to ensure the Council complied with its Bilingual Policy. Several options were discussed and suggested and the Town Clerk was asked to look at further options providing the cost element was not excessive or other impacts were not regressive.

In response to a question on his development, the Town Clerk informed Members that he had completed two full academic years in Welsh classes and would continue to look for suitable courses

99/17 PIER UPDATE

The Pier Rules Sub-Group had reported its recommendations following its first meeting. The 'Pier Rules Tracker' document was considered at some length and many points of issue were raised.

Also reported was the progress made with regard to the Pier Restoration Project and issue of the Marine Licence to carry out the work.

RESOLVED that the following rules be adapted :-

Dogs - Allow dogs on the Pier for trial period of 6 months with rules in place.

Alcohol - No. But if any licence application is requested either for tenants or events, each one considered on its own merits

Cycling, Skateboards or any other similar - Not allowed

Flowers, receptacles for flowers, toys, stuffed animals anything fixed to handrails etc. - None allowed except real flowers until they die off and remove thereafter.

Memorial Plaques and Benches - Maintain current policy of no more allowed.

Signage - Procure if allowed a larger sign on junction of Beach Road and Garth Road, and the Sub-Group to look at this matter further, as well as the workshop depot and car park appearance.

100/17 FINANCIAL MATTERS

- a) **Invoices for Payment** - It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £31,844.90 had been approved.
- b) **Quarterly Accounts** - Members received the Quarterly Accounts for April, May, June 2017 - received and noted.

The Meeting ended at 8.25pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun, 25^{ain} o Fedi 2017** am 6.30 y.h.

PRESENNOL :- Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Derek Hainge
Y Dirprwy Faer y Cynghorydd J Wynn Jones
Y Cynghorwyr Mrs L Day (Cadeirydd)
Dylan Fernley N Pickavance Gareth Roberts
Medwyn Hughes Keith Jones G O Roberts
Owen Hurcum J M Martin Mair Rowlands
Ifan James Enid Parry Luke Tugwell

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

91/17 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Colin King, Conor Savage, Elin Walker Jones, J Wyn Williams a H Wynn Jones.

92/17 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

93/17 HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Rhoddodd yr Arolygydd Owain Llewellyn o Heddlu Gogledd Cymru gyflwyniad ar lafar i'r Pwyllgor ar y datblygiadau trosedd diweddaraf a materion perthnasol oedd yn effeithio ar Fangor. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau priodol a chodwyd materion cyfredol a diweddar. Ymatebodd yr Arolygydd Llewellyn i'r rhain ac amlinellodd y sefyllfa o ran yr adnoddau sydd ar gael.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i'r Arolygydd am ei adroddiad.

94/17 MATERION BRYS

Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi ysgrifennu at y cysylltiadau ar gyfer Cynrychiolwyr Ieuentid ar y Cyngor ond heb gael ymateb hyd yma. Dywedodd hefyd ei fod wedi ysgrifennu at Gyngor Dinas Orsay yn Ffrainc ynglŷn â'u gwahoddiad i fod yn Bartneriaid Gefeillio – eto dim ymateb.

95/17 CWBLHAU FFURFLEN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2016/2017

Adroddodd Clerc y Dref bod yr Archwilydd Allanol BDO o Southampton yn fodlon iawn a bod y broses Archwilio bellach wedi'i chwblhau. Ar wahân i un mân fater gweinyddol nid oedd dim problemau.

PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi'r Hysbysiad Cwblhau Archwiliad Blynyddol 2016/2017 a llongyfarch y staff ar y canlyniad ardderchog hwn.

96/17 PENODI ARCHWILYDD MEWNOL

Hysbysodd Clerc y Dref y Pwyllgor fod Mr John Roberts a oedd wedi gweithredu fel Archwilydd Mewnol y Cyngor am flynyddoedd lawer, wedi ymddeol. Felly byddai angen i'r Cyngor benodi rhywun yn ei le.

PENDERFYNWYD fod Clerc y Dref i ymchwilio i rywun posibl ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

97/17 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG YNG NGHYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU CYNGHORAU CYMUNED A THREF

Roedd y Cyngor wedi derbyn copi o Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i Gynghorau Tref a Chymuned ystyried taliadau cydnabyddiaeth i Aelodau mewn gwahanol categorïau. Oherwydd natur fanwl yr eitem hon ystyriwyd y byddai angen trefnu trafodaeth bellach.

PENDERFYNWYD penodi Is-Bwyllgor gydag o leiaf 5 o Aelodau â diddordeb arno i ystyried y mater yn fanylach ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor wedi hynny.

98/17 YR IAITH GYMRAEG

Adroddodd Clerc y Dref y byddai sawl un o'r Aelodau yn hoffi cyfeiriadau e-bost Cymraeg a sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i bolisi dwyieithog. Tafodwyd nifer o opsiynau ac awgrymwyd gofyn i Glerc y Dref edrych ar opsiynau pellach, cyn belled nad oedd y gost yn ormodol ac nad oedd effeithiau eraill yn golygu cam yn ôl.

Mewn ymateb i gwestiwn am ei ddatblygiad, dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau ei fod wedi cwblhau dwy flynedd academaidd lawn mewn dosbarthiadau Cymraeg ac y byddai'n parhau i chwilio am gyrsiau addas.

99/17 DIWEDDARIAD AM Y PIER

Roedd is-grŵp y Pier wedi adrodd ei argymhellion yn dilyn ei gyfarfod cyntaf. Ystyriwyd y ddogfen 'Pier Rules Tracker' am gryn dipyn o amser a chodwyd nifer o bwyntiau.

Adroddwyd hefyd am y cynnydd a wnaed ar Brosiect Adfer y Pier a rhoi Trwydded Forol er mwyn gallu gwneud y gwaith hwn.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r rheolau canlynol:-

Cŵn - Caniatáu cŵn ar y Pier am gyfnod prawf o 6 mis gyda rheolau yn eu lle.

Alcohol – Dim. Ond os gwneir cais am drwydded, naill ai i denantiaid neu i ddigwyddiadau, ystyried pob cais yn ôl ei rinwedd ei hun.

Seiclo, Byrddau Sglefrio neu debyg - Ddim yn caniatáu.

Blodau, cynwysyddion blodau, tegantau, anifeiliaid wedi'u stwffio ar y canllawiau ayb. – Dim caniatâd ac eithrio blodau go iawn nes eu bod yn gwywo ac yn cael eu symud wedyn.

Placiau a Meinciau Er Cof – Cadw'r polisi presennol, sef na chaniateir rhagor.

Arwyddion – Iawn os ceir caniatâd i gael arwydd mwy ar gyffordd Lôn y Traeth a Ffordd Garth, a'r Is-Grŵp i ystyried y mater hwn ymhellach, yn ogystal â depo'r gweithdy ac ymddangosiad y maes parcio.

100/17 MATERION CYLLID –

- a) **Anfonebau i'w talu** - Nodwyd fod anfonebau fel ag y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £31,844.90 wedi cael eu cymeradwyo.
- b) **Cyfrifon Chwarterol** – Derbyniodd yr Aelodau'r Cyfrifon Chwarterol am fisoedd Ebill, Mai a Mehefin 2017 – Derbyniwyd a nodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25pm